

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 13eg Ragfyr 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Neil Pringle, Beth Thomas, Mari E M Mathews, Catherine Williams.
Datgan diddordeb. Dim datganiad.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 8fed Dachwedd 2021
Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Dywedodd y clerc nad oedd crynodeb o ddigwyddiadau lleol wedi ei dderbyn gan y SCHG. Y clerc i gysylltu gyda Sgt Peter Evans i geisio'r crynodeb diwedddara.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod yn bwriadu anfon sylwadau Dylan Jones Adran Traffic y Cyngor Sir i'r clerc.

[1.2] Pont –y-Mwynwyr

Eglurodd y Cyng Elisabeth Roberts nad oedd newid i'r amserlen isod.

Codi'r bont i'w lle 6ed Ionawr 2022

Ail agor y llwybr 31ain Ionawr 2022

[1.3] Cyngor BS Conwy/Toiledau Ffordd yr Orsaf

Dywedodd y Cyng E Roberts y byddai Steven Teale yn cysylltu.

[1.4] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Y clerc i atgoffa'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

[1.5] Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Eglurodd y Cadeirydd, fod y Cyngor Cymuned yn parhau i aros am ateb gan Bethan Wyn Jones o'r Cyngor Sir

[1.6] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Nodwyd bod gwybodaeth pellach wedi ei drefnu ar gyfer Ionawr 2022.

[1.7] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Deallwyd bod cyflwr allanol y caffi yn amharu ar olygfa gyffredinol y lleoliad, y clerc i gysylltu gyda Peter Wood Swyddog Gorfodaeth y Cyngor Sir os na fydd cydweithrediad gan y tenant.

[1.8] Materion Parcio Bro Gethin

Cyfeiriodd y clerc i ateb gan Grŵp Cynefin bod ymholiad y Cyngor wedi ei anfon ymlaen Ms Katie Clubb Cyafwyddwr y Gymdeithas Tai ac nad oedd cysylltiad pellach wedi ei dderbyn. Y clerc i anfon gair i'w hatgoffa

[1.9] APCE Plannu Coed

Nodwyd bod trefniadau mewn llaw.

[2.] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd gan nad oedd y mater yn symud ymlaen, cytunodd y Cyng E Roberts felly i gysylltu gyda Bryn Shiland o'r Cyngor Sir ynglyn a'r sefyllfa

[2.1] Dyn mewn Fan

Nodwyd bod y Cyng Neil Pringle yn bwrw mlaen gyda'r mater.

[2.2] Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy

Cyfeiriodd y clerc at sylwadau oddiwrth CNC nad oedd y coed/ canghenni ayb yn debygol o achosi llifogydd a bod Haf Jones o'r Cyngor Sir yn tybio y bydd arian ar gael ar gyfer gwella min yr afon gyferbyn.

[2.3] Arwyddion Dim Parcio Garth Dderwen

Dywedodd y clerc bod y Cyngor Sir wedi cytuno gyda'r perchennog i ymestyn y cerbiau ac i symud yr arwyddion.

[2.4] Baw Cwn/ Pentre' Du

Nodwyd bod y cais i gael bin ar gyfer baw cwn wrth yr ysgol wedi ei anfon ymlaen i'r Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyflesterau.

Y Brif Agenda

[2.5] Materion Cynllunio

[a] Dymchwel estyniad ochr, codi dau estyniad deulawr naill ochr i'r eiddo ayb

Bwyty Abbasi, Ffordd Caergybi

[b] Diwygio Amodau rhifau 2 a ganiatawyd 20[parcio] a 25 [mynediad]

Gwesty'r Waterloo, Ffordd Caergybi.

Y clerc i gysylltu gyda APCE ynglyn a manylion y cais ac i'w hanfon ymlaen i'r aelodau ar gyfer sylwadau.

[2.6] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1/11/21 -31/11/21

[b] Dywedodd y clerc fod ffigyrau mynediad i'r Rhaeadr Ewynnol yn uwch i gymharu â mis Tachwedd 2020

[2.7] Ardal Cadwraeth Betws-y-Coed

Sylwadau i'w hanfon i'r clerc

[2.8] Mynediad i Faes Parcio Pont-y-Pair

Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn ar dwr sydd yn crynhoi ar y ffordd i fynediad y maes parcio.

[2.7] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn; Ambiwllans Awyr Cymru £500.00, Ysgol Betws-y-Coed £300.00, Eisteddfod yr Urdd Dinbych £150.00, Clwb Tylluanod £200, WI £200.00, Merched y Wawr £200.00, Eglwys Santes Fair £200.00, Hen Eglwys Saint Mihangel £200.00, Y Scouts £200.00, Clwb Peldroed Betws-y-Coed £200.00